Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned Llandwrog Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

BDO

Cyflwyniad

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw Cyngor Cymuned Llandwrogat eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw'r archwilydd. Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw'r unig rai sy'n bodoli.

Mae'r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio'n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy'n dilyn

- Mân faterion
- Ail-gymeradwyo'r ffurflen flynyddol

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi gan fod mân gamsyniadau ar y ffurflen flynyddol yr ydym yn dymuno tynnu sylw'r Cyngor atynt er mwyn iddynt beidio â digwydd eto mewn blynyddoedd i ddod.

Mân faterion

Beth yw'r mater?

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi fel esgeulustod neu faterion bach sydd wedi cael eu nodi yn y Ffurflen Flynyddol eleni.

Mae'r cyngor wedi cynnwys rhai o'r costau staff ym mlwch 6, taliadau eraill. Felly mae'r taliadau eraill wedi eu datgan yn rhy uchel a'r costau cyflog wedi eu hadrodd yn rhy isel.

Nid yw'r ffigurau cymharol a ddatgelir yn Adran 2 y Ffurflen Flynyddol yn cytuno â'r Ffurflen Flynyddol a archwiliwyd ar gyfer y llynedd. Credwn fod y ffigurau wedi cael eu nodi mewn camsyniad ond nid yw'r camsyniad yn effeithio ar y balans a ddygwyd ymlaen i'r flwyddyn gyfredol.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nodyn yw hwn i dynnu sylw'r cyngor at y mân gamsyniadau hyn.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r cyngor wneud yn siŵr, yn y blynyddoedd i ddod, nad yw'r mân gamsyniadau neu esgeulustod uchod wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifo.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

Ail-gymeradwyo'r ffurflen flynyddol

Beth yw'r mater?

Nid yw'r cyngor wedi nodi'r dyddiad ar gyfer ail-gymeradwyo'r datganiadau cyfrifo a'r datganiad llywodraethiant blynyddol.

Mae'r cyngor wedi cadarnhau mai 21 Medi 2017 oedd y dyddiad cymeradwyo.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nid yw'r ffurflen flynyddol wedi cael ei chwblhau'n llawn yn unol â'r gofynion.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor sicrhau fod pob blwch perthnasol wedi ei gwblhau'n llwyr cyn ail gyflwyno'r ffurflen flynyddol i gwblhau'r harchwiliad.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:25 Medi 2017